OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1799 (Cy. 181)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2013

*Gwnaed - - - - 16 Gorffennaf 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddynt gan adran 39(4) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2013.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwrnod Penodedig

**2.** Y diwrnod a bennir fel y diwrnod y daw'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (y gosodwyd copi o ddrafft ohono gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 29 Ebrill 2013) i rym yw 1 Hydref 2013.

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

16 Gorffennaf 2013

(**1**) 2013 dccc 1.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 1 Hydref 2013 fel y diwrnod y daw'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ("y Cod") a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 38 a 39 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("DSThY 2013") i rym.

Mae'r Cod yn gymwys o ran Cymru ac mewn cysylltiad â chynigion trefniadaeth ysgolion a gyhoeddir ar neu ar ôl 1 Hydref 2013.

Mae'r Cod yn gosod gofynion ac yn cynnwys canllawiau sy'n nodi nodau, amcanion neu faterion eraill mewn perthynas â chynigion trefniadaeth ysgolion a wnaed o dan Ran 3 o DSThY 2013. O dan adran 38(4) o DSThY 2013, dyletswydd Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a phersonau eraill, wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 3 o DSThY 2013, yw gweithredu yn unol ag unrhyw ddarpariaethau perthnasol yn y Cod. Yn ogystal, rhaid i unrhyw berson arall, wrth arfer unrhyw swyddogaeth at ddiben cyflawni swyddogaethau gan Weinidogion Cymru, awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir o dan y Rhan honno, weithredu yn unol ag unrhyw ddarpariaethau perthnasol yn y Cod.